**Rydym yn falch bod y Gweinidog wedi ceisio darparu mwy o wybodaeth am ei fwriadau o ran amnewid darpariaethau Deddf Llywodraeth Cymru adran 79. Rydym yn falch o weld diwygiad drafft sy'n gyson â'n hargymhelliad ym mharagraff 15.**

**Fodd bynnag, mewn perthynas â'r materion a godasom yn ein sylwadau blaenorol, rydym yn barnu nad yw'r Gweinidog wedi mynd i'r afael â'r pwyntiau yn ein sylwadau blaenorol a'n hargymhellion 16, 18, 19 ac 20.**

**Yn benodol, rydym yn dal i farnu y dylai'r Llywodraeth ymrwymo i fwy o ddiwygiadau i Ddeddf Llywodraeth Cymru er mwyn rhoi sylw i'n pryderon ym mharagraff 14 a'r argymhelliad ym mharagraff 18 mewn perthynas â Deddf Llywodraeth Cymru.**

**Rydym yn argymell yn gryf codi cwestiynau am y diwygiadau eraill hyn gyda'r Gweinidog wrth graffu, er mwyn i unrhyw ymrwymiadau ganddo fod ar gofnod.**

**Mae'r diwygiad drafft yn caniatáu i'r Llywodraeth gyflawni ei dyletswydd o ran datblygu cynaliadwy trwy gyflawni llai na'r hyn sy'n ofynnol o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd. Nid ydym yn meddwl y bydd y diwygiadau fel y'u nodir, yn arbennig yn isadran 3, yn ddigon i gymryd lle darpariaethau pwysig y cynllun presennol yn llawn.**

**Cofion,**

**Anne Meikle**
**Cadeirydd y Gynghrair Datblygu Cynaliadwy**